

Rhannu Absenoldeb Rhiant

Rheoli Pobl

Canllaw i'r Broses ar gyfer Penaethiaid

Ebrill 2026



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Beth yw Rhannu Absenoldeb Rhiant?

Mae'r cyfnod Rhannu Absenoldeb Rhiant yn caniatáu i rieni cymwys **rannu hyd at 50 wythnos o absenoldeb a hyd at 37 wythnos o dâl statudol** ar ôl genedigaeth neu fabwysiadu plentyn.

Mae'r cyfnod Rhannu Absenoldeb Rhiant yn rhoi hyblygrwydd i rieni ofalu am eu plentyn yn ystod y flwyddyn gyntaf trwy ganiatáu iddyn nhw:

- Cymryd absenoldeb ar yr un pryd
- Cymryd absenoldeb mewn cyfnodau ar wahân
- Gweithio a chymryd gwyliau am yn ail i weddu i anghenion teuluol

Sut mae'r cyfnod Rhannu Absenoldeb Rhiant yn gweithio - Cam wrth gam

Cam 1: Gweithiwr yn Rhoi Hysbysiad

Rhaid i'r gweithiwr roi o leiaf 8 wythnos o hysbysiad cyn cymryd cyfnod Rhannu Absenoldeb Rhiant.

Cam 2: Cyfyngu ar absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu

Rhaid i'r gweithiwr y mae ei absenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu yn dod i ben lenwi'r **Ffurflen Cyfyngu Absenoldeb**. <https://mewnrwyd/media/nsmfwvbf/rhannu-absenoldeb-rhiant-diddymu-rhybudd-ynghylch-cwtogi-cyfnod-mamolaethmabwysiadu.docx>

Mae hyn yn cadarnhau'n ffurfiol faint o absenoldeb a thâl fydd ar gael i'w rannu.

Cam 3: Hysbysiad o Hawl

Mae'r gweithwyr yn cyflwyno **Hysbysiad o Hawl**, sy'n cadarnhau:

- Eu cymhwysedd ar gyfer cyfnod Rhannu Absenoldeb Rhiant
- Faint o gyfnod Rhannu Absenoldeb Rhiant y gellir ei gymryd
- Arwydd cychwynnol o sut maen nhw'n bwriadu ei ddefnyddio

<https://mewnrwyd/media/449742/78335-cymraeg-shared-parental-leave-notice-to-entitlement-intention-mother-adopter.docx>

<https://mewnrwyd/media/446759/cymraeg-shared-parental-leave-notice-of-entitlement-intention-partner.docx>

Nid archebu gwyliau ffurfiol yw hyn.

Cam 4: Hysbysiad o Absenoldeb

Mae'r gweithiwr yn cyflwyno **Hysbysiad o Absenoldeb** sy'n gofyn am gyfnod Rhannu Absenoldeb Rhiant yn ffurfiol ac yn cadarnhau:

- Dyddiadau dechrau a gorffen
- A yw'r absenoldeb yn barhaus (un cyfnod) neu'n ysbeidiol (sawl cyfnod)

Gall gweithwyr gyflwyno hyd at dri Hysbysiad o Absenoldeb i gyd.

<https://mewnrwyd/media/urziws0m/74922-shared-parental-leave-variation-of-period-of-leave-notice-cymraeg.docx>

Cam 5: Ymateb y Rheolwr

Rhaid i reolwyr ymateb **o fewn 14 diwrnod** ar ôl derbyn Hysbysiad o Absenoldeb.

- **Absenoldeb parhaus (un cyfnod):**
Rhaid ei gymeradwyo
- **Absenoldeb ysbeidiol (sawl cyfnod)**
Gall rheolwyr:
 - Cytuno i'r absenoldeb y gofynnwyd amdano
 - Trafod a threfnu dewisiadau eraill
 - Gwrthod y patrwm ysbeidiol

Sylwer:

Dim ond pan fydd gweithiwr yn cyflwyno un hysbysiad sy'n cynnwys nifer o gyfnodau absenoldeb ar wahân y gall rheolwyr wrthod Cyfnod Ysbeidiol o Rannu Absenoldeb Rhiant (ShPL). Yn yr achos hwnnw, gall y cyflogwr wrthod y patrwm o fewn y cyfnod trafod 14 diwrnod ond rhaid iddo ganiatáu i'r gweithiwr gymryd yr absenoldeb fel un cyfnod parhaus yn lle hynny os oes angen o hyd.

Os yw gweithiwr yn cyflwyno tri hysbysiad ar wahân ar gyfer tri chyfnod gwahanol o absenoldeb, mae'r rhain yn cael eu trin fel **ceisiadau ar wahân** ac ni ellir eu gwrthod dim ond oherwydd bod yr absenoldeb yn ysbeidiol, cyn belled â bod pob hysbysiad yn bodloni gofynion statudol.

Mae pob hysbysiad absenoldeb yn cyfrif tuag at uchafswm y gweithiwr o **dri chais**.

Cam 6: Tîm Absenoldeb - Prosesu

Ar ôl cytuno, rhaid cyflwyno'r ffurflen gais i'r **Tîm Absenoldeb**:
timabsenoldebadnoddadynol@sirgar.gov.uk

Bydd y Tîm Absenoldeb yn:

- Prosesu'r cais
- Cyflwyno llythyr cadarnhau i'r gweithiwr
- Ei anfon at y pennaeth
- Cadarnhau:
 - Dyddiadau Rhannu Absenoldeb Rhiant cymeradwy
 - Tâl yn ystod absenoldeb
 - Dyddiad dychwelyd i'r gwaith

Dyddiad Dychwelyd i'r Gwaith

- Tybir mai'r dyddiad dychwelyd yw'r diwrnod gwaith nesaf ar ôl i'r cyfnod Rhannu Absenoldeb Rhiant ddod i ben, fel y cadarnhawyd yn ysgrifenedig gan y Tîm Absenoldeb.
- Os yw'r gweithiwr yn dymuno dychwelyd yn gynharach, rhaid iddo:
 - Rhoi 8 wythnos o hysbysiad ysgrifenedig
 - Mae hyn yn cyfrif fel un o'r tri hysbysiad a ganiateir
- Os yw'r tri hysbysiad eisoes wedi'u defnyddio, nid yw'n ofynnol i reolwyr dderbyn newidiadau ond gallan nhw wneud hynny os yw'n rhesymol ymarferol.
- Os nad yw'r gweithiwr yn gallu dychwelyd oherwydd salwch, mae polisi absenoldeb salwch arferol yn berthnasol.

Tâl yn ystod cyfnod Rhannu Absenoldeb Rhiant

- Mae Tâl Rhannu Absenoldeb Rhiant yn daladwy am hyd at 37 wythnos
- Wedi'i dalu ar gyfradd statudol y llywodraeth (neu 90% o enillion cyfartalog os yw'n is)
- Mae 92% o'r cyfnod Rhannu Absenoldeb Rhiant yn cael ei adennill oddi wrth Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi drwy'r gyflogres
- Dim ond 8% o gost y tâl statudol y mae'n rhaid i ysgolion ei thalu

Diwrnodau Cyswllt yn ystod cyfnod Rhannu Absenoldeb Rhiant (SPLIT)

Gall gweithwyr weithio hyd at **20 diwrnod SPLIT** yn ystod Cyfnod Rhannu Absenoldeb Rhiant heb ddod â'u habsenoldeb i ben.

A yw diwrnodau cyswllt yn ystod cyfnod Rhannu Absenoldeb Rhiant yn orfodol?

Nac ydyn. Rhaid cytuno ar ddiwrnodau SPLIT ar y cyd.

Dyma enghreifftiau:

- Hyfforddiant
- Cyfarfodydd Tîm
- Trosglwyddo neu ddiweddariadau prosiect

Tâl Diwrnod SPLIT

- Talu drwy gytundeb yn unig
- Talu yn unol â pholisi Cyngor Sir Caerfyrddin
- Rhaid gwneud ceisiadau gan ddefnyddio:
 - Ffurflen Gais Diwrnod SPLIT (HWB/PORTH), neu
 - System My VIEW

Hawliau Dychwelyd i'r Gwaith

Mae gan weithwyr sy'n dychwelyd ar ôl cyfnod Rhannu Absenoldeb Rhiant yr hawliau canlynol:

- Dychwelyd i'r un swydd
- Yr un telerau ac amodau
- Dim anfantais na gwahaniaethu
- Dychwelyd ar y diwrnod gwaith nesaf sydd ar gael ar ôl i'r cyfnod Rhannu Absenoldeb Rhiant ddod i ben

Cynllun Absenoldeb Staff Ysgolion

Gan fod yr SHPL yn daliad statudol a bod yr ysgol yn gallu adennill 92% o'r gost, **nid** yw'r absenoldeb yn cael ei gwmpasu o dan gynllun absenoldeb staff yr ysgol.

Rhestr Wirio Penaethiaid

- ✓ Trafod opsiynau Rhannu Absenoldeb Rhiant gyda gweithiwr
- ✓ Cytuno ar batrwm absenoldeb (neu drafod dewisiadau eraill os ydyn nhw'n ysbeidiol)
- ✓ Rhoi gwybod i'r Tîm Absenoldeb Adnoddau Dynol
- ✓ Cadarnhau dyddiad dychwelyd i'r gwaith
- ✓ Trefnu cyflenwi
- ✓ Trafod diwrnodau SPLIT
- ✓ Sicrhau bod ffurflenni diwrnod SPLIT yn cael eu cwblhau os yw'n berthnasol

Rhannu Absenoldeb Rhiant (SPL) – Canllaw Cyflym

Canllaw Cyfeirio cyflym i benaethiaid/rheolwyr sy'n delio â cheisiadau Rhannu Absenoldeb Rhiant: Dilynwch y camau hyn i sicrhau cydymffurfiaeth a phrosesu hwylus.

Cam	Y Camau Gweithredu
1	Gweithiwr yn rhoi gwybod am ei fwriad i gymryd cyfnod Rhannu Absenoldeb Rhiant
2	Gwirio rhoi 8 wythnos o hysbysiad

3	Cadarnhau bod absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu wedi'i gwtogi – ffurflen ar gael
4	Sicrhau bod Hysbysiad o Hawl wedi'i gyflwyno ar y ffurflen gais angenrheidiol
5	Derbyn Hysbysiad Absenoldeb – ffurflen gais ar gael
6	Pennu math o absenoldeb: Cyfnodau Parhaus neu Ysbeidiol
7	Cymeradwyo absenoldeb parhaus; trafod/gwrthod cyfnodau ysbeidiol
8	Cyflwyno cais i'r Tîm Absenoldeb - Adnoddau Dynol
9	Y Tîm Absenoldeb -Adnoddau Dynol yn cyflwyno llythyr cadarnhau
10	Trafod diwrnodau cyflenwi a SPLIT
11	Gweithiwr yn cymryd diwrnodau SPL ac yn dychwelyd ar ôl y dyddiad gorffen

Pwyntiau allweddol i'w cofio

- 14 diwrnod i ymateb i Hysbysiad Absenoldeb
- Rhaid cymeradwyo absenoldeb parhaus
- Gellir trafod neu wrthod absenoldeb ysbeidiol
- Caniateir hyd at 3 hysbysiad absenoldeb/amrywiad
- Mae diwrnodau SPLIT yn ddewisol a thrwy gytundeb yn unig
- Rhaid i'r Tîm Absenoldeb bob amser gyhoeddi cadarnhad ysgrifenedig/bydd y pennaeth yn cael y wybodaeth hefyd